# POLISI A GWEITHDREFN YMYRRAETH ER MWYN CEFNOGI MYFYRWYR

# CYNNWYS

**Polisi** ........ 3

**Cwmpas** ........ 4

**Gweithdrefn** ........ 4

**Cam 1: asesu a gwerthuso** ........ 5

**Cam 2: ymyrraeth er mwyn cefnogi** ........ 5

**Cam 3: ymyrraeth ofynnol** ........ 6

**Cais am adolygiad** ........ 8

**Dychwelyd i astudio** ........ 8

# 1. Polisi

1.1 Fel myfyriwr yn y Brifysgol, mae'n ofynnol i chi weithredu mewn ffordd sy'n parchu myfyrwyr eraill a staff sy'n gweithio a byw yma, ymwelwyr, a'r gymuned ehangach. Ni ddylai eich gweithredoedd roi un ai chi eich hun neu eraill mewn perygl o niwed.

1.2 Mae'r Polisi Ymyrraeth er mwyn Cefnogi Myfyrwyr yn darparu fframwaith i'ch cefnogi yn ystod eich astudiaethau pan ymddengys bod eich ymddygiad a/neu iechyd naill ai'n tarfu arnoch neu'n cael effaith niweidiol arnoch neu ar y bobl o'ch cwmpas.

1.3 Fe'ch anogir i gymryd rhan yn y weithdrefn hon, sy'n darparu fframwaith i sicrhau y byddwch yn cael eich trin yn deg ac yn sensitif ac yn cael cymorth ychwanegol i'ch cynorthwyo.

1.4 Efallai y bydd adegau pan fydd y Brifysgol yn pryderu a ydych chi'n ddigon iach i allu cyflawni'ch gorau, neu a ydych chi'n amharu ar allu pobl o'ch cwmpas i gyflawni eu gorau. Mae'n bosibl hefyd y bydd adegau pan fydd parhau i astudio yn cael effaith andwyol arnoch chi a'ch iechyd. Ar adeg fel hon, mae'n bosibl y bydd y Brifysgol yn penderfynu nad yw defnyddio'r rheoliadau sy'n ymwneud ag ymddygiad ac ymgysylltiad yn briodol i'ch amgylchiadau neu'ch buddiannau gorau. Ar yr adegau hyn, mae'n y byddwn yn defnyddio'r weithdrefn hon i'n helpu i weithio gyda chi i benderfynu beth i'w wneud. Er enghraifft, mewn sefyllfa lle mae eich gweithredoedd yn cael effaith negyddol arnoch chi neu ar les y rhai sydd o'ch cwmpas, rydym yn cydnabod yr angen i fod yn gytbwys o ran ein hymateb, gan gynnwys pryd y gallai'r camau gweithredu a gofnodir fod yn gysylltiedig ag anawsterau iechyd meddwl, salwch seicolegol neu drallod emosiynol, neu gyflyrau niwrolegol.

1.5 Nod Brifysgol yw rhoi cyfle i chi gyflawni eich potensial academaidd llawn. Byddwn yn ceisio cynnig cefnogaeth ac addasiad rhesymol yn ystod eich astudiaethau er mwyn eich galluogi i wneud eich penderfyniadau eich hun ynghylch eich cynnydd. Wrth benderfynu a ddylai'r Brifysgol ymwneud â chi o dan delerau'r weithdrefn hon, byddwn yn ystyried cyd-destun, amgylchiadau a pherygl y sefyllfa fel y mae'n berthnasol i'ch iechyd a'ch lles chi, neu effaith eich gweithredoedd ar bobl eraill o'ch cwmpas.

1.6 Gellir dechrau defnyddio'r weithdrefn hon yn ystod unrhyw gam o'r weithdrefn a nodir isod. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn erbyn prawf teg, gan asesu'r risg i chi eich hun a/neu eraill: a yw eich gweithredoedd wedi cael effaith andwyol, neu a ydynt yn debygol o effeithio ar eich iechyd neu les, iechyd neu les pobl eraill o'ch cwmpas, neu'r dysgu a/neu'r amgylchedd preswylio yn y Brifysgol?

1.7 Fel rheol, bydd y penderfyniad i ddwysáu'r weithdrefn hon yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr a/neu Bennaeth yr Ysgol, yn dibynnu ar ble mae'r amgylchiadau'n codi. Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael ar yr adeg berthnasol. Bydd penderfyniadau a wneir o dan y weithdrefn yn cael eu gwneud mewn ffordd

deg a thryloyw, gan ystyried y risgiau a'r tebygolrwydd o'r effaith ar eich iechyd neu ar les y bobl o'ch cwmpas.

1.8 Gallai Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr a/neu Bennaeth Ysgol ar unrhyw adeg yn y weithdrefn gyfeirio'r achos at y Cofrestrydd Academaidd i'w ystyried o dan reoliad neu bolisi arall os tybir, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, ei bod yn fwy briodol. Os oes gennym bryderon am eich ymgysylltiad â'ch astudiaethau a/neu eich ymddygiad pan fyddwch yn fyfyriwr cofrestredig, efallai y byddwn yn ystyried y cyd-destun a'r amgylchiadau dan reoliadau sy'n ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr ag astudiaethau, ymddygiad myfyrwyr, addasrwydd i ymarfer, a/neu'ch contract preswylfeydd.

## 2. Cwmpas

2.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar radd israddedig, ôl-raddedig a addysgir neu ymchwil, neu'n dilyn modiwlau ar sail amser llawn neu'n rhan amser, sy'n gysylltiedig ag astudio wyneb yn wyneb drwy ddysgu o bell neu addysg cyfunol, ar leoliad, neu ar gyfnod astudio dramor.

2.2 Os ydych yn fyfyriwr anabl ac yn gofyn am addasiadau i'r drefn hon er mwyn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr i nodi unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i gefnogi'ch ymgysylltiad.

## 3. Gweithdrefn

3.1 Mae tri cham i'r weithdrefn: asesu a gwerthuso (cam 1), ymyrraeth er mwyn cefnogi (cam 2), a'r ymyrraeth ofynnol (cam 3). Byddwn yn ceisio datrys materion cyn gynted â phosibl yn y weithdrefn a byddwn yn defnyddio'r weithdrefn i nodi a rheoli risg yn rhagweithiol. Yn dilyn dadansoddiad risg, gall fod ymyrraeth a/neu ddilyniant pellach.

3.2 Gellir dechrau'r weithdrefn ar unrhyw gam fel sy'n briodol i'r amgylchiadau a gyflwynir. Y bwriad yw sicrhau dull cyson a chymesur tuag at ymyraethau er mwyn cefnogi Ar bob cam, cewch ddod â ffrind neu gynrychiolydd gyda chi i unrhyw gyfarfodydd a gynhelir o dan y weithdrefn hon. Gall hwn fod yn gynghorydd annibynnol o Gyngor Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr, ffrind, neu aelod o'r teulu (ond nid cynrychiolydd cyfreithiol). Fel arfer, byddwn yn ceisio darparu cofnod ysgrifenedig i chi o gyfarfodydd a gynhelir o dan y weithdrefn hon o fewn 7 diwrnod. Gellir rhoi nodyn cyfrinachol o gyfarfodydd o dan y weithdrefn hon ar eich cofnod myfyriwr.

3.3 Mewn achosion eithafol pan fydd y risg o darfu a chamau cysylltiedig yn mynd yn rhy fawr, mae'n bosibl na fydd yn briodol i chi barhau â'ch astudiaethau bryd hynny. O dan yr amgylchiadau hyn mae'n bosibl y bydd penderfyniad bod yn rhaid i chi gymryd gohiriad o astudiaethau. Os bydd hyn yn digwydd, mae'r weithdrefn yn cynnwys camau sy'n rhoi cyfle i chi wella a pharhau â'ch astudiaethau drwy ddychwelyd â chefnogaeth.

3.4 Os bydd pob opsiwn cymorth wedi'i ddisbyddu neu'n annhebygol o ddiogelu rhag niwed i chi neu i eraill neu i leihau'r risg o niwed yn foddhaol, gall y cam

ymyrraeth gofynnol argymell yn eithriadol i'r Is-Ganghellor eich bod yn cael eich gwahardd yn barhaol o'r Brifysgol heb gyfle i ddychwelyd.

## 4. Cam 1: asesu a gwerthuso

4.1 Pan fydd aelod o staff yn nodi pryderon am eich gweithredoedd ac effaith y gweithredoedd hynny arnoch chi a/neu ar les y bobl o'ch cwmpas, mae'n bosibl y cewch eich gwahodd i gwrdd â staff yr Ysgol Academaidd. Fel arfer, eich tiwtor personol neu reolwr yr Ysgol fydd hwn, a/neu swyddog arall o'r Ysgol.

4.2 Yn y cyfarfod byddwch yn gallu clywed pob un o'r materion sy'n peri pryder a chynigir y cyfle i chi ddatgelu unrhyw amgylchiadau lliniarol. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael o fewn y Brifysgol.

4.3 Pwrpas y cyfarfod yw asesu'r ffeithiau a gyflwynir a'r holl dystiolaeth gysylltiedig, gan roi cyfle i chi ymateb a cheisio datrys y pryderon. Caiff dogfennau perthnasol eu rhannu gyda chi cyn y cyfarfod, oni bai bod rheswm eithriadol, er enghraifft bod y cyngor meddygol a dderbyniwyd wedi nodi y gallai clywed y dystiolaeth eich rhoi mewn perygl o gael niwed.

4.4 Gallai canlyniadau posibl y cyfarfod fod yn gynllun gweithredu anffurfiol y mae pob parti'n cytuno iddo, neu sy'n symud i gam 2 o'r weithdrefn hon, ymyrraeth er mwyn cefnogi. Os na fyddwch yn cymryd rhan yn y cam hwn o'r weithdrefn, mae'n debygol y caiff ei ddwysáu i gam 2.

4.5 Os ydych yn astudio ar gwrs sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol a bod y weithdrefn addasrwydd i ymarfer yn gymwys, gall eich ysgol gyfeirio'r mater i gael ei drin o dan y weithdrefn honno o ganlyniad i'r cam asesu a gwerthuso yn y weithdrefn hon.

## 5. Cam 2: ymyrraeth er mwyn cefnogi

5.1 Os na chaiff pryderon eu datrys yn dilyn cam asesu a gwerthuso'r weithdrefn, neu os bydd yr aelod o staff o'r farn bod y risg a gyflwynir uwchlaw'r trothwy i ddefnyddio'r cam hwnnw o'r weithdrefn, gall yr Ysgol roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr am eu pryder(on). Bydd y Cyfarwyddwr wedyn yn cymryd camau i gael dealltwriaeth o'r ffeithiau perthnasol.

5.2 Oni bai bod eich ymddygiad yn golygu bod rhaid ymyrryd yn gyflymach, byddwn fel arfer yn rhoi 7 diwrnod o rybudd am gyfarfod cam 2. Caiff dogfennau perthnasol eu rhannu gyda chi cyn y cyfarfod, oni bai bod rheswm eithriadol. Mae'n bosibl mai rheswm eithriadol o'r fath fyddai bod cyngor meddygol a dderbyniwyd wedi nodi y gallai clywed y dystiolaeth eich rhoi mewn perygl o gael niwed.

5.3 Diben y cyfarfod yw egluro pryderon y Brifysgol, effaith bosibl yr amgylchiadau neu'r ymddygiad a gofnodwyd arnoch chi a/neu eraill, i asesu eich gallu i astudio ar hyn o bryd, a thrafod a chytuno ar gynllun gweithredu i'ch cefnogi yn eich astudiaethau. Gofynnir i chi gytuno i'r cynllun gweithredu a all nodi nifer o ymyraethau er mwyn cefnogi i'ch cynorthwyo. Gall y rhain

gynnwys ei gwneud yn ofynnol i chi fynychu cyfarfodydd wythnosol gydag aelod o staff enwebedig am gyfnod penodol o amser, sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ymwneud â chymorth y Brifysgol neu gymorth neu gyngor allanol, neu gam(au) rhesymol eraill i gefnogi newid yn y camau sy'n achos pryder neu'n achosi risgiau annerbyniol i chi eich hun neu i eraill. Cytunir ar ddyddiad adolygu. Fel arall, mae'n bosibl y cewch eich cefnogi i gymryd seibiant o'ch astudiaethau os penderfynwch fod hyn er eich lles chi, yn unol â'r Weithdrefn Gohirio Astudiaethau.

5.4 Os yw'r cyfarfod Ymyrraeth er mwyn Cefnogi o'r farn na fydd cynllun gweithredu yn lliniaru'r risg o niwed, anaf neu amhariad i chi neu bobl eraill yn ddigonol mewn modd amserol, yn lle hynny caiff gyfeirio eich achos yn at gam 3: ymyrraeth ofynnol.

5.5 Os byddwch yn penderfynu peidio â mynychu'r cyfarfod ymyrraeth cefnogaeth, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud penderfyniad am eich gallu i astudio yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i ni ac unrhyw risgiau a gyflwynir.

5.6 Os na fyddwch yn dilyn cynllun gweithredu y cytunwyd arno a/neu os oes rhagor o enghreifftiau o gamau gweithredu sy'n peri risg o niwed, anaf neu amhariad i chi neu i bobl eraill, caiff cyfarfod ymyrraeth gofynnol (adran 6) ei drefnu.

## 6. Cam 3: ymyrraeth ofynnol

6.1 Os yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â'ch gweithredoedd yn parhau i fod yn achos pryder ac nid ydynt wedi gostwng i lefel briodol drwy gam 2 yr weithdrefn hon, neu os yw eich camau wedi codi risg ddifrifol ac uniongyrchol o bryder am eich diogelwch eich hun neu am ddiogelwch y rhai sydd o'ch cwmpas, mae'n bosibl y bydd y Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr yn galw cyfarfod ymyrraeth gofynnol cam 3.

6.2 Bydd cyfarfod ymyrraeth gofynnol yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael ynglŷn â'ch astudiaethau a'ch ymddygiad, i alluogi cynnal asesiad risg ac i asesu eich gallu i astudio bryd hynny. Byddwn yn rhoi gwybod i chi fod y cyfarfod yn cael ei drefnu o dan gam 3 y weithdrefn hon ac yn rhoi copi i chi.

6.3 Bydd y cyfarfod ymyrraeth gofynnol yn cynnwys o leiaf 3 aelod o staff sy'n cynrychioli eich Ysgol Academaidd, Cefnogi a Lles Myfyrwyr a'r Gofrestrfa. Gall y panel gynnwys y staff canlynol neu eu henwebai:

- Uwch staff perthnasol o Gefnogi a Lles Myfyrwyr;
- Pennaeth Achosion Myfyrwyr;
- Pennaeth yr Ysgol;
- Tiwtor personol;
- Cyfarwyddwr Cyfleusterau'r Campws, os ydych yn byw yn llety'r Brifysgol a/neu os yw rhai o'r pryderon yn ymwneud ag ymddygiad yn un o breswylfeydd y Brifysgol;

- Cynrychiolydd (cynrychiolwyr) o unrhyw adran(nau) eraill yn y Brifysgol sy'n berthnasol i'r achos
- Partïon neu asiantaethau allanol perthnasol, e.e. Cyswllt Myfyrwyr yr Heddlu.

6.4 Diben cyfarfod ymyrraeth gofynnol yw asesu'r risg i chi a'r rhai sydd o'ch cwmpas o ganlyniad i'ch gweithredoedd. Bydd y cyfarfod yn ystyried lefel y risg ac os yw'n debygol o barhau, lleihau neu waethygu; ac felly pa gamau y bydd yn ofynnol i chi eu cymryd.

6.5 Bydd y cyfarfod ymyrraeth gofynnol yn ystyried tystiolaeth gan gynnwys a fuoch yn gallu cydymffurfio ag unrhyw gynlluniau gweithredu blaenorol sydd wedi bod ar waith o ganlyniad i gytundebau yng Ngham 2. Bydd hefyd yn ystyried a ellid cytuno ar unrhyw gynlluniau gweithredu pellach er mwyn i chi allu parhau â'ch astudiaethau ar hyn o bryd.

6.6 Caiff dogfennau perthnasol eu rhannu â chi cyn y cyfarfod, oni bai bod tystiolaeth feddygol, mewn amgylchiadau eithriadol, i ddangos y byddai clywed y dystiolaeth yn eich rhoi chi neu eraill mewn perygl. Cewch gyfle i ddarparu datganiad ysgrifenedig a/neu lafar i'r cyfarfod.

6.7 Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno, gofynnir i chi adael y cyfarfod wrth i'r panel ystyried yr amgylchiadau. Byddwn yn ceisio rhoi penderfyniad neu argymhelliad y cyfarfod ymyrraeth gofynnol cam 3 i chi yn bersonol ar y diwrnod, ond os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod. Os ydych wedi cael gwybod am y penderfyniad yn y cyfarfod, byddwch yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod i'r cyfarfod. Bydd hwn yn nodi sut y gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol.

6.8 Pan fydd cynllun gweithredu yn cael ei newid neu ei ddatblygu yng Ngham 3, caiff cyfarfod adolygu ei drefnu a bydd yr achos yn cael ei adolygu gan ddefnyddio trefniadau'r cyfarfod ymyrraeth er mwyn cefnogi (adran 5) mewn amserlen y cytunwyd arni.

6.9 Os yw'r cyfarfod ymyrraeth gofynnol yn penderfynu bod y risg yn rhy uchel, mae'n bosibl y bydd y Panel yn penderfynu na chaniateir i chi barhau â'ch astudiaethau bryd hynny. Wrth ddod i'r penderfyniad, bydd y Panel yn ystyried y risg o niwed neu unrhyw ganlyniad difrifol arall i chi neu i bobl eraill, ac yn argymell i'r Is-Ganghellor bod gofyn i chi gymryd gohiriad o astudiaethau neu eich bod yn cael eich gwahardd dros dro. Os bydd yr Is-Ganghellor yn cytuno â'r argymhelliad hwnnw, bydd y penderfyniad yn cynnwys y canlynol:

- Hyd y gohiriad o'r astudiaethau neu'r gwaharddiad dros dro;
- Gwybodaeth gyswllt ar gyfer ein gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr a gofyniad i chi drafod eich anghenion cefnogaeth gyda'r gwasanaethau hyn cyn dychwelyd i'ch astudiaethau;
- Gwybodaeth am ffynonellau cefnogaeth perthnasol y tu allan i'r Brifysgol;

- Gwybodaeth y bydd y Brifysgol ei hangen gennych cyn y byddwch yn gallu ailymuno â'ch astudiaethau dan delerau'r Weithdrefn Dychwelyd i Astudio. Gall hyn gynnwys llythyr â dyddiad diweddar arno gan eich meddyg teulu neu gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig arall sy'n gyfarwydd â'ch gofal, yn dweud eich bod yn addas i astudio ac ailymuno â chymuned y Brifysgol.
- Cytunir ar bwyntiau cyswllt i'ch galluogi i gadw mewn cysylltiad yn ystod gohiriad o astudiaeth neu waharddiad yn unol â'r Weithdrefn Dychwelyd i Astudio.
- Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn gofyn am adroddiad gan Feddyg Iechyd Galwedigaethol Myfyrwyr y Brifysgol yn cadarnhau eich bod yn addas i astudio. Os bydd hyn yn digwydd, gofynnir i chi roi caniatâd i'r adroddiad gael ei ddatgelu i'r Cyfarwyddwr Cefnogi a Lles Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i osod gofynion eraill yn dibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos.

6.10 Os bydd y cyfarfod ymyrraeth cam 3 gofynnol yn penderfynu:

- bod eich dychweliad i astudio yn y dyfodol rhagweladwy yn debygol o gael effaith andwyol ar eich iechyd, **neu**
- eich bod yn creu risg annerbyniol o niwed i chi eich hun neu i bobl eraill o'ch cwmpas, **neu**
- mae'r holl ddewisiadau cefnogaeth wedi'u disbyddu **ac** erys risg bosibl o niwed i chi'ch hun neu i eraill mewn lleoliad Prifysgol **ac** nid yw wedi bod yn bosibl lleihau lefel y risg a gyflwynir yn ddigonol,

gall argymell yn eithriadol i'r Is-Ganghellor y cewch eich gwahardd yn barhaol o'r Brifysgol.

6.11 Os na fyddwch yn mynychu cyfarfod ymyrraeth sy'n ofynnol ar gyfer cam 3, byddwn yn gwneud penderfyniad am eich gallu i astudio yn eich absenoldeb ac yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael i ni.

## 7. Cais am adolygiad

7.1 Cewch wneud cais am adolygiad yn unol â'r seiliau a nodir yng Ngweithdrefn Adolygu'r Brifysgol, o un neu ragor o'r penderfyniadau canlynol:

- Mae'r cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith;
- Rhoddir telerau'r cynllun gweithredu ar waith;
- Gohiriad gofynnol o astudiaethau (gan gynnwys, pan fo'n briodol, unrhyw amodau ar gyfer dychwelyd);
- Gwaharddiad parhaol.

## 8. Dychwelyd i astudio

8.1 Dewis y Brifysgol bob amser yw eich bod yn cael eich galluogi i ddychwelyd i astudiaethau a chyflawni hyd eithaf eich gallu heb niweidio'ch diogelwch na'ch lles na'ch diogelwch neu les y rhai o'ch cwmpas.

8.2 Os ydych, o ganlyniad i'r darpariaethau yn y weithdrefn hon, wedi cymryd (neu y bu'n ofynnol i chi gymryd) gohiriad o astudio, rydym am i chi allu dychwelyd i'ch astudiaethau ar yr adeg iawn i chi heb ragfarn.

8.3 Ar yr adeg gynharaf bosibl wrth ystyried eich dychweliad i astudio dylech ymgysylltu â'n gweithwyr Cefnogaeth Myfyriwr proffesiynol. Mae'n bwysig eich bod yn deall effaith eich penderfyniadau ar eich cyllid, eich iechyd a'ch statws mewnfudo (os yw'n briodol). Dylech hefyd drafod eich cynlluniau gyda'ch Tiwtor Personol neu'i gyffelyb.

8.4 Os ydych yn fyfyriwr cofrestredig, mae gennych fynediad i wasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a ddarperir gan y Brifysgol fel y nodir yn torri ar draws Polisi Astudio.

8.5 Bydd eich dychweliad i astudio yn cael ei reoli yn unol â'r Weithdrefn Dychwelyd i Astudio.